



YSGOL GYMREAG YSTALYFERA-BRO DUR

Polisi Amddiffyn Plant

Athro Dynodedig Diogelu Plant Ystalyfera :

Mrs Delyth Spurway

Athro Dynodedig Diogelu Plant Bro Dur:

Miss Sioned Jones

Dirprwy ADDP Ystalyfera:

Mrs Rhiannon Hammond/Mrs Angharad Lloyd

Dirprwy ADDP Bro Dur:

Miss Kath Jones

Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant:

Mrs Carys Jones

Cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr 2018

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2018

Adolygwyd gan y Llywodraethwyr:

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2019

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2020

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2021

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2022

CYFLWYNIAD

Mae Corff Llywodraethu YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA – BRO DUR yn cydnabod, er mwyn cefnogi datblygiad cyflawn pob plentyn, fod ganddynt ddyletswydd i sicrhau bod pob plentyn yn:-

- aros yn ddiogel;
- iach;
- gallu mwynhau a chyflawni;
- cyflawni lles economaidd;
- gwneud cyfraniad cadarnhaol.

DATGANIAD DIOGELU

Mae llywodraethwyr a staff YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA – BRO DUR yn gwbl ymroddedig i lynu wrth adran 175 Deddf Addysg 2002 sy'n gofyn bod trefniadau ar waith gan Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a sefydliadau a gynhelir er mwyn iddynt arfer eu swyddogaethau o ran diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r Corff Llywodraethu YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA – BRO DUR yn ymateb i amcan cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy:-

- greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;
- nodi lle ceir pryderon lles plant a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â hwy, lle y bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill;
- sicrhau y gwrandewir ar blant os ydynt yn mynegi pryderon; a
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant drwy'r cwricwlwm.

Mae'r Corff Llywodraethu'n cydnabod, er mwyn cyflawni'r amcan, fod angen system wedi'u dylunio i:-

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- hybu arfer diogel a herio arfer gwael ac anniogel;
- nodi digwyddiadau lle mae sail i bryderu am les plentyn, a dechrau neu gymryd camau gweithredu priodol i'w gadw'n ddiogel; a
- chyfrannu at y gwaith partneriaeth effeithiol rhwng yr holl rai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Bydd llywodraethwyr a staff YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA – BRO DUR yn gweithio gyda'i gilydd ag asiantaethau eraill i gyflawni'r amcan uchod.

Yn YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA – BRO DUR, mae iechyd a diogelwch yr holl blant o'r pwys pennaf. Mae rhieni'n anfon eu plant i'r ysgol bob dydd gan ddisgwyl y bydd yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel lle gall y plant ffynnu. Mae'r Corff Llywodraethu a staff yr ysgol felly'n gwneud pob ymdrech i sicrhau y gwreiddir y disgwyliad hwn. Er mwyn gwneud hyn, mae amrywiaeth eang o fesurau a pholisïau wedi'u rhoi ar waith.

Mae'r polisi diogelu hwn yn cyfeirio at yr agweddau canlynol sy'n cefnogi diogelu a hyrwyddo lles disgyblion:-

- Amddiffyn Plant;
- Cam-drin gan blant a phobl ifanc, gan gynnwys cam-drin rhywiol (ymddygiad sy'n niweidiol yn rhywiol)
- Plant sy'n ceisio lloches
- Disgyblion du a lleiafrifoedd ethnig
- Bwlio
- Delweddau cam-drin plant a'r rhyngrwyd
- Cam-drin plant sy'n gysylltiedig â'r gred mewn dewiniaeth a chredoau ysbrydol eraill
- Esgeuluso plant
- Plant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuencid
- Plant sy'n byw oddi cartref neu mewn llety dros dro
- Camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Plant a allai fod wedi cael eu masnachu
- Plant sy'n colli addysg
- Plant sy'n rhedeg i ffwrdd/ar goll
- Plant anabl
- E-ddiogelwch
- Salwch ffug neu wedi'i achosi gan eraill
- Llurgunio organau rhywiol merched
- Priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd
- Gofal maeth gan gynnwys maethu preifat
- Profiadau cyfnewid tramor a drefnir gan ysgolion
- Profiadau cyfnewid tramor a drefnir gan rieni a gofalwyr
- Trais ar sail rhywedd, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol
- Cyswllt corfforol â myfyrwyr, gan gynnwys ataliaeth
- Radicaleiddio

- Pobl ifanc sy'n weithredol yn rhywiol
- Camddefnyddio sylweddau
- Hunanladdiad
- Cam-drin partner agos ymhlith ardegwyr
- Iechyd a Diogelwch;
- Cyfle Cyfartal;
- Aflonyddu a gwahaniaethu;
- Cam-drin hiliol;
- Cam-drin cyffuriau a sylweddau;
- Cymorth Cyntaf;
- Disgyblion â chyflyrau meddygol;
- Addysg rhyw a pherthnasoedd;
- Diogelu yn y cwricwlwm;
- Lles disgyblion ar leoliadau galwedigaethol estynedig;
- Materion sy'n benodol i ardal leol;
- Mesurau diogelwch ar y safle;
- Presenoldeb;
- Recriwtio Diogel;
- Sefydlu;
- Croesawu ymwelwyr;
- Ymddygiad a disgyblaeth;
- Tynnu lluniau a fideos;
- Datgelu camarfer;
- Cyfathrebu â rhieni a dysgwyr;
- Gweithgareddau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol; a
- Chwynion.

CYSYLLTIADAU

Yr Athro Dynodedig ar gyfer Diogelu/Amddiffyn Plant yn campws Ystalyfera yw: Mrs Delyth Spurway

Yr Athro Dynodedig ar gyfer Diogelu/Amddiffyn Plant yn campws Bro Dur yw: Ms Sioned Jones

Y Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu/Amddiffyn Plant yn yr ysgol yw: Mrs Carys Jones

1. Amddiffyn Plant

Atodir Polisi Amddiffyn Plant yr ysgol ynghyd ag **ATODIAD** sy'n darparu manylion diffiniadau o gam-drin plant a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â materion amddiffyn plant â'r Polisi Diogelu hwn.

Gweler [Polisi Diogelu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

2. Cam-drin gan blant a phobl ifanc, gan gynnwys cam-drin rhywiol(ymddygiad sy'n niweidiol yn rhywiol)

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#) yn darparu arweiniad amlasiantaeth ar gam-drin gan blant a phobl ifanc. Mae Pennod 4.9 [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn ymwneud â phlant sy'n arddangos ymddygiad sy'n niweidiol yn rhywiol.

3. Plant sy'n ceisio lloches

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Alltudion ar Waith a Phlant yng Nghymru wedi datblygu [Pecyn Adnoddau i Athrawon ar y cyd er mwyn gweithio gyda phlant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid](#).

Mae pennod 4.10 [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn ymwneud â phlant digwmni sy'n ceisio lloches ynghyd ag Arweiniad Arfer Cymru Gyfan ar [Ddiogelu a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc Ddigwmni sy'n Ceisio Lloches](#).

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#)

[2004](#) yn darparu arweiniad amlasiantaeth ar blant a phobl ifanc ddigwmni sy'n ceisio lloches.

4. Disgyblion du a lleiafrifoedd ethnig

Dyletswyddau ac arweiniad

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar [fwlio oherwydd hil, crefydd a diwylliant](#).

Mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn cyfnerthu cyfraith bresennol yn un fframwaith cyfreithiol. Er bod rhai o gysyniadau gwahaniaethu'n aros yr un peth â'r hyn a geir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb flaenorol, mae rhai meysydd na chawsant eu cynnwys o'r blaen. Mae amrywiol fathau o wahaniaethu sy'n berthnasol i ddarpariaethau [ysgolion yn y Ddeddf](#). Yn 2012, cyhoeddodd BAWSO³ ['Amddiffyn Plant Lleiafrifoedd Ethnig a Du: Ymchwiliad i Ymyriadau Amddiffyn Plant'](#). Roedd yr astudiaeth hon hefyd yn edrych ar nifer y plant yr oedd BAWSO wedi gweithio gyda hwy a oedd wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant rhwng 2006 a 2011, i archwilio mater diogelu plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a du.

Gweler [Polisi Cyfle Cyfartal Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

5. Bwlio

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru '[Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio \(24/2003\)](#)' yn darparu gwybodaeth am fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion a'r camau i'w cymryd i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n adrodd am fwlio y tu allan i'r ysgol. Mae'n [cynnig](#) arweiniad ar:

- o fwlio oherwydd hil, crefydd a diwylliant
- o bwlio sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau
- o bwlio homoffobig
- o bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig
- o seiberfwlio - oherwydd datblygiadau mewn technolegau cyfathrebu a mynediad iddynt gan blant a phobl ifanc mae ysgolion wedi gorfod bod yn wylidwrus ac yn flaengar o ran dod o hyd i atebion i'w camddefnyddio.

[Lansiwyd 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Framwaith Gweithredu'](#) gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannullinell [gymorth](#) drwy MEIC Cymru a [Chanolfan Genedlaethol Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb](#) drwy Gymorth i Ddiodefwyr Cymru.

Gweler [Polisi Gwrth Fwlio Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi e-ddiogelwch Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#).

6. Delweddau o gam-drin plant a'r rhyngwyd

Nid yw cyrchu delweddau o gam-drin plant yn weithred 'heb ddiodefwr'. Mae'r rhai sy'n cyrchu delweddau amhriodol o blant yn cyfrannu at barhad camdriniaeth y plant hynny, ac yn ei annog. Mae'r plant hynny'n ddiodefwyr cam-drin difrifol, a dylai'r camdrinwyr, boed y rheiny'n bobl sy'n cyflawni'r cam-drin cychwynnol neu'n rhai sy'n cyrchu'r delweddau, fod yn destun camau gweithredu troseddol priodol a chymesur.

Mae pryder cynyddol hefyd ynghylch plant yn gweld deunydd amhriodol drwy dechnoleg gyfathrebu rhyngweithiol, e.e. pornograffi oedolion a/neu ffurfiau eithafol ar ddeunydd anwedus. Gall caniatáu i blentyn weld y fath ddeunydd, neu ei annog i wneud hynny dros gyfnod gyfiawnhau mwy o ymchwilio. Gall plant eu hunain fwlio eraill drwy negeseuon testun a defnyddio ffonau camera symudol i ffilmio ymosodiadau treisgar ar blant eraill i'w rhannu.

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Pennod 5.5 [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn ymwneud â delweddau anwedus o blant a'r rhyngwyd.

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#) yn cynnwys adran ar ddelweddau cam-drin plant, y rhyngwyd a thechnoleg gwybodaeth.

Mae mwy o arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth ar gael gan y [Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein](#) (CEOP). Mae CEOP yn gweithio i amddiffyn plant, teuluoedd a chymdeithas rhag pedoffilyddion a throseddwy'r rhyw; yn arbennig, y rhai sy'n ceisio manteisio ar blant yn rhywiol ar-lein.

Gweler [Polisi e-ddiogelwch Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Secstio Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Ffonau Symudol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

7. Cam-drin plant sy'n gysylltiedig â'r gred mewn dewiniaeth a chredoau ysbrydol eraill

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant](#)

2004 yn cynnwys arweiniad ar gam-drin plant sy'n gysylltiedig â chred mewn meddiant gan ysbrydion neu ddewiniaeth, neu mewn ffyrdd eraill sy'n gysylltiedig â chred ysbrydol neu grefyddol. Cyhoeddodd Lywodraeth Cymru ganllawiau ar wahân hefyd ym mis Mai 2008 ar [Ddiogelu Plant rhag Cam-drin sy'n Gysylltiedig â Chred mewn Meddiant gan Ysbryd](#).

8 Esgeuluso plant

Ceir pedwar prif gategori o esgeuluso plant: esgeulustod corfforol, addysgol, emosiynol a meddygol. Mae astudiaeth cyffredinrwydd a gynhaliwyd gan yr NSPCC⁴ yn y DU yn dangos mai esgeulustod oedd y math mwyaf cyffredin o gamdriniaeth mewn teulu ar gyfer pob grŵp oed, ac esgeuluso plant yw'r prif reswm pam yr oedd plant yng Nghymru'n destun cynllun amddiffyn plant.

Gall canlyniadau posib gynnwys casgliad o broblemau iechyd ac iechyd meddwl, gan gynnwys oediad datblygiadol, anawsterau emosiynol ac ymddygiad, cynifyrdd deallusrwydd is a pherfformiad ysgol gwael ac anhawster â chyfeillgarwch a chynnal perthnasoedd.

Esgeulustod corfforol yw methiant i ddarparu ar gyfer anghenion sylfaenol plentyn. Mae fel arfer yn ymwneud â'r rhiant neu'r un sy'n rhoi gofal yn methu darparu swm ac ansawdd digonol o fwyd, y maint a'r math cywir o ddillad neu le diogel i fyw, chwarae neu gysgu ynddo. Gall hefyd gynnwys gadael plentyn a goruchwyliaeth annigonol neu amhriodol, sy'n arwain at gwtau, cleisiau, llosgiadau ac anafiadau eraill.

Mae esgeulustod addysgol yn ymwneud â methu sicrhau bod y plentyn yn derbyn addysg ddigonol ac addas a methu cefnogi plentyn yn ei ddysgu.

Gall esgeulustod emosiynol neu seicolegol gynnwys:

- anwybyddu presenoldeb neu anghenion plentyn
- methu ysgogi, annog neu amddiffyn plentyn yn gyson
- gwrthod plentyn a pheidio â dangos hoffter mewn modd amserol neu gyson
- ynysu plentyn, lle nad oes gan y plentyn gysylltiad cymdeithasol arferol â phlant ac oedolion eraill.

Esgeulustod meddygol yw methu rhoi gofal iechyd priodol i blentyn. Efallai na fydd rhiant yn sylweddoli bod angen sylw meddygol ar blentyn, gall wrthod gofal meddygol i blentyn neu efallai na fydd yn dechrau

neu'n rhoi'r driniaeth a argymhellwyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn hefyd yn cynnwys esgeuluso'r dannedd, lle bydd gan blentyn bydredd deintiol difrifol heb ei drin.

Dylai aelodau staff sy'n pryderu am esgeuluso plentyn adrodd am eu pryderon i'r Uwch-weithiwr Proffesiynol Dynodedig. Dylent ddefnyddio egwyddorion diogelu plant sylfaenol gan gynnwys rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau a chanolbwyntio ar y plentyn ar bob adeg. [Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#) a [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn diffinio esgeuluso plant ac yn amlinellu dyletswyddau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol i weithredu ar bryderon.

Mae llawer o BGLI wedi mabwysiadu protocolau esgeuluso plant a byddant yn gallu cynnig cyngor (gan gynnwys dolenni i becynnau offer a phrotocolau esgeulustod cyhoeddedig) ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi byrddau i fabwysiadu'r adnoddau hyn.

Mae'r NSPCC wedi cyhoeddi taflenni sy'n crynhoi'r hyn sy'n hysbys am y nodweddion allweddol i helpu i nodi esgeulustod a cham-drin emosiynol ymhlith plant cyn oed ysgol, plant rhwng 5 a 14 oed ac ardegwyr. Gellir lawrlwytho'r rhain yn: <http://www.coreinfo.cardiff.ac.uk/category/leaflets>

Gweler [Polisi Diogelu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

9. Plant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid

Dyletswyddau ac arweiniad

Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr [Ymrwymiad i Ddiogelu](#) lle'r amlinellodd ei rôl a'i ymrwymiad i ddiogelu plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

10 Plant sy'n byw oddi cartref neu mewn llety dros dro

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#) yn cynnwys arweiniad ar blant sy'n byw oddi cartref a phlant teuluoedd [sy'n byw mewn llety dros dro](#).

Mae Pennod 4.2 [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn ymwneud â phlant sy'n byw oddi cartref.

11 Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Dyletswyddau ac arweiniad

Lluniwyd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar [Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol](#) i gynorthwyo athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant drwy:

- ddatblygu strategaethau atal lleol
- nodi'r rhai mewn perygl o gamfanteisio rhywiol

- galluogi gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc y mae/gall fod rhai'n camfanteisio'n rhywiol arnynt
- cefnogi gweithredu yn erbyn y rhai sy'n benderfynol o gam-drin a chamfanteisio ar blant a phobl ifanc yn y ffordd hon.

Mae [Protocol Cymru Gyfan](#) yn cynnwys y Fframwaith Asesu Risgiau Camfanteisio Rhywiol sy'n galluogi i gamau gweithredu diogelu gael eu cysylltu â thystiolaeth o risg, gan hwyluso camau gweithredu ataliol ac ymyriadau priodol. Bwriedir iddo gyfeirio ymatebion addas o ran anghenion diogelu plant a phobl ifanc. Dylai staff ysgol fod yn effro ac yn gymwys i nodi pryderon bod plentyn yn agored i, neu mewn perygl o, brofi cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, a gweithredu ar y pryderon hyn.

12 Plant a allai fod wedi cael eu masnachu

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae [Arweiniad Arfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant a Allai fod wedi Cael eu Masnachu](#) yn amlinellu'r ymateb gofynnol i ddiogelu'n effeithiol blant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan oedolion sy'n eu masnachu i mewn i'r DU ac ynddi at ddibenion camfanteisio.

Cyflwynodd [Deddf Troseddau Rhywiol 2003](#) droseddau eang newydd sy'n ymwneud â masnachu i mewn i'r DU ac ynddi, ar gyfer unrhyw ffurf ar drosedd rywiol. Mae uchafswm cosb o 14 blynedd ar gyfer y troseddau hyn.

Cyflwynodd [Deddf Lloches a Mewnfudo \(Triniaeth Hawlwyr etc.\) 2004](#) drosedd newydd sef 'masnachu er mwyn camfanteisio ar bobl' sy'n ymwneud â masnachu ar gyfer llafur gorfodol a thynnu organau.

Mae gan y DU rwymedigaethau rhyngwladol o ran masnachu dan Brotool Palermo'r Cenedloedd Unedig, [Penderfyniad Fframwaith yr UE ar Fasnachu at Ddibenion Camfanteisio Rhywiol a Chamfanteisio ar Weithwyr](#), a Chonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu [yn erbyn](#) Masnachu Pobl.

Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Diogelu Plant a Allai fod wedi Cael eu Masnachu](#). Mae hwn yn arweiniad arfer da i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr o'r holl asiantaethau i'w helpu'n effeithiol i ddiogelu plant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan oedolion yn y DU er mwyn camfanteisio arnynt.

Yn 2011, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei [Strategaeth ar Fasnachu Pobl](#). Mae hyn yn rhoi pwyslais ar gynyddu ymwybyddiaeth o fasnachu plant a sicrhau bod dioddefwyr sy'n blant yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag cael eu masnachu eto.

Mae Canolfan Cyngor ar Fasnachu Plant yr NSPCC (CTAC) yn wasanaeth cenedlaethol arbenigol sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth am ddim i weithwyr proffesiynol sy'n pryderu y gall plentyn neu berson ifanc fod yn ddioddefwr masnachu. Ffoniwch CTAC i gael cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth ar 0808 800 5000 neu e-bostiwch help@nspcc.org.uk.

Gweler [Polisi e-ddiogelwch Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Secstio Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Ffonau Symudol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#).

13 Plant sy'n colli addysg

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg](#). Mae'n darparu pecyn cymorth ymarferol i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg.

Gweler Polisi Presenoldeb Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur

14 Plant sy'n rhedeg i ffwrdd/ar goll

Mae [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn cynnwys protocol ar blant sy'n mynd ar goll <http://www.awcpp.org.uk/home/wales-protocols/>. Mae'r protocol hwn yn gymwys i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed ac mae'n ymwneud â:

- o phlant sy'n mynd ar goll sy'n byw gyda'u teuluoedd
- o plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol sy'n mynd ar goll o'u lleoliad (gan gynnwys plant sydd yn y ddalfa).

Gweler [Polisi Diogleu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

15 Plant anabl

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#) yn cynnwys arweiniad ar gam-drin plant anabl.

Mae pennod 4.7 [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn ymwneud â cham-drin plant anabl. Lle ceir pryderon am les plentyn anabl, dylid gweithredu arnynt yn unol â [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, yn yr un ffordd â chydag](#) unrhyw blentyn arall. Mae'r un trothwyau ar gyfer gweithredu'n berthnasol. Byddai'n annerbyniol pe bai safonau gofal gwael yn cael eu goddef ar gyfer plentyn anabl na fyddai'n cael eu goddef ar gyfer plant nad ydynt yn anabl. Lle mae gan blentyn anabl anawsterau cyfathrebu neu ddysgu, dylid rhoi sylw arbennig i anghenion cyfathrebu, a chadarnhau canfyddiadau plentyn o ddigwyddiadau, a'i dymuniadau a'i deimladau.

Mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn ymwneud â chyfraith wahaniaethu, gan gryfhau'r gyfraith i gefnogi cynnydd ar gydraddoldeb ymhellach. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn disgyblion rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn seiliedig ar 'nodweddion a warchodir'. Mae anabledd yn nodwedd a warchodir.

[Mae Rhan 6 y Ddeddf Cydraddoldeb](#) yn nodi dyletswyddau ysgolion ac awdurdodau lleol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

[Gweler Polisi Gofal Dwys Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Cyfle Cyfartal Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Disgyblion â Cyflwr Meddygol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

16 E-ddiogelwch

Mae Llywodraeth Cymru'n annog ysgolion i wneud defnydd llawn o dechnolegau cymdeithasol i ysgogi dysgwyr a gwella'u deilliannau, gan ddatblygu dysgwyr i fod yn ddinasyddion digidol hyderus a chymwys ar yr un pryd. Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau [ddatganiad ysgrifenedig ar ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn ddiogel ac yn gyfrifol ym myd addysg](#) a gofynnodd i awdurdodau lleol weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ymagwedd newydd, fwy cadarnhaol. Roedd hyn yn cydnabod bod angen i blant ddeall sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel, dan oruchwyliaeth ac yn annibynnol, er mwyn iddynt ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i ddod yn ddinasyddion digidol hyderus.

I helpu plant a phobl ifanc aros yn ddiogel ar-lein, mae [parth e-ddiogelwch newydd](#) wedi'i greu ar - cronfa cynnwys digidol genedlaethol. Mae hyn yn darparu adnoddau, newyddion ac ymchwil ar aros yn ddiogel yn y lle digidol drwy fabwysiadu ymddygiad priodol a phresenoldeb digidol cadarnhaol. Mae'n cynnal adnoddau e-ddiogelwch i'r holl ysgolion er mwyn helpu athrawon i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion e-ddiogelwch ymhlith rhieni a disgyblion.

Ym mis Hydref 2014, lansiodd [360 Cymru, offeryn hunanadolygu e-ddiogelwch](#). Mae'n caniatáu i ysgolion adolygu eu polisiau a'u harferion e-ddiogelwch. Mae'n darparu templedi polisiau, yn ogystal â chysylltiadau ag arweiniad arfer da. Mae hefyd yn caniatáu i ysgolion nodi meysydd cryfder a gwendid a meincnodi eu cynnydd a'u gwelliant yn erbyn ysgolion eraill.

Ym mis Hydref 2014, lansiodd yr adnodd [Llythrennedd a Dinasyddiaeth Ddigidol](#). Lluniwyd yr adnodd hwn i'w ddefnyddio mewn ystafelloedd dosbarth i rymuso disgyblion i feddwl yn feirniadol, ymddwyn yn ddiogel a chymryd rhan mewn modd cyfrifol yn ein byd digidol. Mae'r [deunyddiau](#) hyn sydd am ddim, ar gyfer y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4/5, yn hyblyg ac yn addasadwy. Mae'n caniatáu i athrawon ddewis o unedau o grwpiau blwyddyn eraill, er enghraifft, mewn ymateb i ddigwyddiadau yn yr ysgol, neu i gydnabod newidiadau cenedlaethol mewn tueddiadau ar-lein.

Gweler [Polisi e-ddiogelwch Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Secstio Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

17 Salwch ffug neu wedi'i achosi gan eraill

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae pennod 5.3 [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn cynnwys protocol salwch ffug.

Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Diogelu Plant ag arnynt Salwch Ffug neu Salwch Gwneud'.

Gweler [Polisi Diogelu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Presenoldeb Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

18 Llurgunio organau rhywiol merched (FGM)

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae [Protocol Plant Cymru Gyfan ar Lurgunio Organau Rhywiol Merched](#) yn rhoi cyngor ar ddiogelu merched rhag FGM.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi llunio [canllawiau amlasiantaeth](#) sy'n amlinellu'r camau gweithredu y dylid eu cymryd gan weithwyr proffesiynol rheng flaen megis athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, i amddiffyn merched a menywod a rhoi'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt.

Yn y DU, mae pob ffurf ar FGMs yn anghyfreithlon o dan [Ddeddf Llurgunio Organau Rhywiol Merched 2003](#). Mae'n drosedd (ni waeth beth yw eu cenedligrwydd a'u statws preswyllo) i:

- o lurgunio organau rhywiol merched yn y DU
- o cynorthwyo wrth lurgunio organau rhywiol merched yn y DU
- o cynorthwyo merch i lurgunio ei horganau rhywiol ei hun yn y DU
- o cynorthwyo o'r DU, berson nad yw o'r DU i lurgunio organau rhywiol merch y tu allan i'r DU ar wladolyn y DU neu breswyllydd parhaol y DU.

Yn ôl y Ddeddf, mae hefyd yn drosedd am y tro cyntaf i wladolion y DU neu breswylwyr parhaol y DU i:

- o lurgunio organau rhywiol merched dramor
- o cynorthwyo gwladolyn y DU neu breswyllydd parhaol y DU i lurgunio organau rhywiol merch dramor - mae hyn yn cynnwys mynd â merch dramor i lurgunio ei horganau rhywiol
- o cynorthwyo o'r tu allan i'r DU berson nad yw o'r DU i lurgunio organau rhywiol merch neu fenyw sy'n wladolyn y DU neu'n breswyllydd parhaol y DU dramor - mae hyn yn cynnwys mynd â merch dramor i lurgunio ei horganau rhywiol
- o cynorthwyo merch i lurgunio ei horganau rhywiol ei hun y tu allan i'r DU, hyd yn oed mewn gwledydd lle mae'r arfer hwn yn gyfreithiol.

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder fod merch mewn perygl enbyd o gael ei horganau rhywiol wedi'u llurgunio neu fod hynny eisoes wedi digwydd, arwain at gyfeiriad amddiffyn plant di-oed.

Os oes gennych bryderon y gall merch neu fenyw ifanc gael ei chymryd dramor at ddibenion llurgunio ei horganau rhywiol, dylech hefyd gysylltu â'r [Swyddfa Dramor a Chymanwlad](#). Mae [FORWARD](#) yn sefydliad yn y DU sy'n darparu cefnogaeth, cwnsela a lle diogel i ferched a menywod siarad am eu profiadau. Gall hefyd addysgu a gweithio gyda theuluoedd i atal llurgunio organau rhywiol merched eraill yn y teulu.

Mae gan yr NSPCC linell gymorth 24 awr i unrhyw un sy'n poeni bod merch mewn perygl o gael ei horganau rhywiol wedi'u llurgunio, neu fod hyn eisoes wedi digwydd iddi. Gallwch ffonio 0800 028 3550 neu e-bostio fgmhelp@nspcc.org.uk.

Gweler Polisi [Polisi Diogelu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

19 Priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae canllawiau arfer [amlasiantaeth Llywodraeth EM: Ymdrin ag Achosion o Briodas dan Orfod](#) a ddiweddarwyd ym mis Awst 2014, yn darparu cyngor cam wrth gam i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys athrawon.

Mae'n ategu'r canllawiau statudol [Yr Hawl i Ddewis](#) a ddaeth i rym pan lanswyd y [Ddeddf Priodas dan Orfod \(Amddiffyniad Sifil\)](#) ym mis Tachwedd 2008. Mae'n nodi cyfrifoldebau strategol ehangach prif weithredwyr ac uwch-reolwyr wrth fynd i'r afael â phriodas dan orfod yn lleol.

O dan [Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014](#) mae'n drosedd i orfodi rhywun i briodi. Mae hyn yn cynnwys:

- mynd â rhywun dramor i'w orfodi i briodi (boed y briodas dan orfod yn digwydd ai peidio)
- priodi rhywun heb y gallu meddyliol i gydsynio i'r briodas (p'un a ydyw dan bwysau i wneud hynny neu beidio)
- torri Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod

Bydd ateb sifil cael Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod drwy'r llysoedd teuluol yn parhau i fodoli ochr yn ochr â'r drosedd newydd, felly gall dioddefwyr ddewis sut maent am gael eu cynorthwyo. Mae manylion y gyfraith newydd ar gael ar [y wefan ddeddfwriaeth](#)

[Mae 'Priodas dan Orfod ac Anableddau Dysgu: Canllawiau Arfer Amlasiantaeth'](#) yn helpu gweithwyr proffesiynol sy'n ymdrin â phobl ag anableddau'n priodi dan orfod. Fe'i lluniwyd i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi ymarferwyr i nodi arwyddion rhybudd yr arfer cymhleth hwn sy'n aml yn gudd.

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2007](#) yn cynnwys arweiniad ar briodas dan orfod.

Os oes pryderon bod plentyn (bachgen neu ferch) mewn perygl o briodi dan orfod, gall ysgolion a sefydliadau AB gysylltu ag [Uned Priodas dan Orfod Llywodraeth y DU](#), lle gall gweithwyr achos profiadol gynnig cefnogaeth ac arweiniad. Ffoniwch 020 7008 0151 rhwng 9am -5pm, dydd Llun i ddydd Gwener neu e-bostiwch fm@fco.gov.uk

Gweler [Polisi Diogelu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

20 Gofal maeth gan gynnwys maethu preifat

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae [Deddf Plant 2004](#) yn sefydlu dyletswydd yr holl awdurdodau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i'w hysbysu am unrhyw blant sydd wedi'u maethu'n breifat yn eu hardal.

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Amddiffyn Plant, Cefnogi Gofalwyr Maeth: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gam-drin](#) i gynorthwyo gwasanaethau maethu yn y sectorau cyhoeddus ac annibynnol, a rheolwyr amddiffyn plant wrth ymdrin â honiadau yn erbyn gofalwyr maeth.

Dylai athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch unrhyw drefniadau maethu preifat a ddaw i'w sylw lle nad ydynt yn fodlon y bydd/bod eu hawdurdod lleol wedi cael eu hysbysu o'r trefniad. Mae'n arfer da hysbysu'r rhieni maeth am y cyfeiriad ond os ystyrir y byddai hyn yn rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed, nid oes angen cael eu caniatâd.

Mae [Deddf Plant 1989](#) yn creu nifer o droseddau mewn cysylltiad â maethu preifat, gan gynnwys methiant i hysbysu trefniad neu gydymffurfio ag unrhyw ofyniad neu waharddiad gan yr awdurdod. Mae [Deddf Plant 2004](#) yn cryfhau trefniadau lleol ar gyfer hysbysu. Yn ôl paragraff 7A [Atodlen 8 Deddf Plant 1989](#), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo ymwybyddiaeth yn eu hardal o ofynion hysbysu, a sicrhau bod y fath gyngor yr ymddengys fod ei angen yn cael ei roi i'r rhai sy'n ymwneud â phlant sydd wedi'u maethu'n breifat, neu y bwriedir iddynt gael eu maethu'n breifat. Bydd hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr maeth preifat.

Gweler Polisi [LAC](#); [Polisi Diogleu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

21 Ymweliadau Cyfnewid Tramor

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, o dan [Adran 175 Deddf Addysg 2002](#) ac [Adran 28 Deddf Plant 2004](#). Mae'n bwysig bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn glir ynghylch sut maent yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu plant wrth wneud trefniadau ar gyfer ymweliadau cyfnewid tramor.

Profiadau cyfnewid tramor a drefnir gan ysgolion

Mater i awdurdodau lleol ac ysgolion yw bodloni eu hunain wrth ystyried gwneud trefniadau i ganiatáu i deulu sy'n derbyn plentyn/person ifanc yng Nghymru gael cyswllt â phlentyn sy'n ymweld, a sicrhau nad yw aelodau o'r teulu sy'n derbyn wedi'u cynnwys ar restr o deuluoedd a waherddir. Dylid ceisio cyngor gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Ni all y GDG gael mynediad i gofnodion troseddol a ddelir dramor. Ni all awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru wirio teuluoedd sy'n derbyn plant yn yr un ffordd pan fydd disgyblion yn aros dramor. Dylai ysgolion weithio gydag ysgolion partner dramor i sicrhau yr ymgymerydd â sicrwydd tebyg cyn ymweliad. Os ydych yn dymuno, gall awdurdodau lleol ac ysgolion gysylltu â'r llysgenhadaeth dramor [berthnasol](#) neu Uchel Gomisiwn y wlad dan sylw a chanfod a ellir gwneud gwiriadau tebyg yn y wlad honno.

Cyfnewidfeydd tramor a drefnir gan rieni a gofalwyr

Lle bydd rhieni'n trefnu rhaglen cyfnewid tramor, neu'n arfer eu barn eu hunain ac yn derbyn cyfrifoldeb am ddewis y teulu sy'n derbyn y plentyn, ystyrir ei fod yn drefniad preifat rhwng y ddau deulu ac felly daw o dan gwmpas 'trefniad teuluol a phersonol'. Felly, nid oes angen gwiriadau GDG. Mewn achosion o'r fath, mae'n debygol bod perthynas wedi'i sefydlu rhwng y ddau deulu dros amser, fel y gall rhieni wneud dewis gwybodus am anfon eu plentyn i aros gyda'r teulu sy'n derbyn.

Gweler [Polisi Ymweliadau Addysgol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

22 Trais ar sail rhywedd, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniadau canlynol ym [Mil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#).

- Mae **cam-drin yn y cartref** yn gam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol lle mae'r dioddefwr yn gysylltiedig â'r camdriniwr.
- **Trais ar sail rhywedd** yw trais, bygythiad o drais neu aflonyddu sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n gysylltiedig â rhywedd neu dueddfryd rhywiol, llurgunio organau rhywiol merched a phriodas dan orfod.
- Mae **trais rhywiol** yn cynnwys camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rywiol.

Gall menywod a dynion fod yn ddioddefwyr cam-drin yn y cartref o fewn perthnasoedd gwahanrywiol, lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Gallant hefyd ddioddef cam-drin gan aelodau eraill o'r teulu. Fodd bynnag, cyflawnir y rhan fwyaf o gam-drin yn y cartref gan ddynion yn erbyn menywod a'u plant. Menywod ifanc 16 i 24 oed sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef cam-drin yn y cartref.

Dyletswyddau ac arweiniad

Lluniwyd y [Fframwaith Gwasanaeth i ddiwallu anghenion pobl â phroblemau cam-drin yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau](#) i gynorthwyo cynllunwyr gofal, comisiynwyr a darparwyr cam-drin yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau i sefydlu cysylltiadau cadarn rhwng gwasanaethau cam-drin yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau a fydd yn darparu llwybr gofal di-fwilch i bob cleient.

Mae [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn cynnwys [Arweiniad Arfer Cymru Gyfan](#)

[ar Ddiogelu Plant a Phobl Ifanc y mae Cam-drin yn y Cartref yn Effeithio Arnynt](#) i gefnogi ymarferwyr wrth ymateb i bryderon.

Mae Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â phegyn o fesurau polisi ychwanegol, bydd yn adeiladu ar gynnydd a wnaed dan strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel (2010)', ar gyfer mynd i'r afael â phob ffurf ar drais yn erbyn menywod a cham-drin yn y cartref, sy'n cynnwys cyngor ar 'wella'n hymateb mewn ysgolion.' Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn canolbwyntio ar dri maes penodol: gwella arweinyddiaeth ac atebolrwydd, gwella addysg ac ymwybyddiaeth a chryfhau gwasanaethau yng Nghymru. Caiff canllawiau statudol i gefnogi'r ddeddfwriaeth eu cyhoeddi pan ddaw'r ddeddfwriaeth yn gyfraith a bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried sut gallai'r arweiniad hwn effeithio ar drefniadau diogelu mewn addysg.

Y cyswllt rhwng cam-drin yn y cartref a cham-drin plant

Mae cysylltiad cryf rhwng cam-drin yn y cartref a cham-drin ac esgeuluso plant. Mae un o bob tri achos amddiffyn plant yn dangos hanes trais yn y cartref tuag at y fam. Mae pobl ifanc mewn cartrefi treisgar dair i naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu a'u cam-drin, naill ai'n uniongyrchol neu wrth geisio amddiffyn eu rhieni. Mae un o bob pump o'r achosion o gam-drin plant yr oedd yr NSPCC wedi ymdrin â hwy'n ymwneud â cham-drin yn y cartref. Yn naw deg y cant o'r achosion hynny, roedd pobl ifanc yn bresennol yn y cartref wrth i'r cam-drin fynd yn ei flaen; ac mewn o leiaf hanner yr achosion, caiff y person ifanc ei gam-drin hefyd.

Ymateb i bryderon

Lle mae gan YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR achos i gredu bod person ifanc mewn perygl o neu'n destun trais neu gam-drin, neu'n byw mewn aelwyd lle mae hynny'n digwydd, dylid hysbysu'r UBD ar unwaith a dylid cymryd camau yn unol â Gweithdrefnau [Amddiffyn Cymru Gyfan](#) .

Pan fydd y cam-drin rhwng oedolion yn y cartref, gellir rhoi cyngor i'r person ifanc ar y sawl sy'n gallu helpu, gan gynnwys yr heddlu lleol, gwasanaethau eiriolaeth cam-drin yn y cartref lleol (cyfeiriwch at wybodaeth a lunnir yn lleol), Llinell Gymorth Cymru Gyfan (0808 8010 800) neu adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol i blant.

Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru ar drais ar sail rhywedd, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol yn nodi'r lefel o hyfforddiant sy'n briodol i staff addysg. Mae'n rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol allu 'Gofyn a Gweithredu' o ran trais ar sail rhywedd, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall yr holl weithwyr proffesiynol yn debygol o ddod i gysylltiad â'r rhai sydd efallai'n profi cam-drin nodi dangosyddion y profiad hwn ac ymateb yn briodol i'r person hwnnw.

Ymagweddau rhagweithiol

Dylai gwaith atal gael ei integreiddio, lle y bo'n briodol, ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a dylid mynd i'r afael ag ef ar bob pwynt perthnasol yn y cwricwlwm, er enghraifft mewn gwersi Cymraeg, Saesneg, Addysg Grefyddol ac [Addysg Personol a Chymdeithasol \(ABCh\)](#). Mae ABCh o safon yn helpu i greu ethos cadarnhaol yn yr ysgol lle mae gan ddisgyblion amgylchedd diogel i ddysgu ynddo ac yn cael y cyfle a'r hyder i rannu pryderon ag eraill. Gall trafod y materion a gwrandao ar farn a safbwyntiau cyfoedion helpu i newid agweddau a darparu cefnogaeth. Wrth drafod materion sensitif o fewn ABCh neu unrhyw gyd-destun yn ysgol, mae angen cyflwyno'r rhain mewn ffordd gytbwys a thrafod materion moesegol yn wrthrychol. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig i sicrhau bod gan ddisgygwyr y sgiliau i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad yn eu perthnasoedd personol a sut i adnabod ymddygiad amhriodol.

Gweler [Polisi Diogleu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Cwricwlwm ABCh Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur](#)

23 Cyswllt corfforol â disgyblion, gan gynnwys ataliaeth

Dyletswyddau ac arweiniad

O dan Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 gall holl staff yr ysgol ddefnyddio'r fath rym ag sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau i atal disgyblion rhag gwneud, neu barhau i wneud, unrhyw un o'r canlynol:

- o cyflawni unrhyw drosedd (neu i ddisgybl dan oed cyfrifoldeb troseddol, yr hyn a fyddai'n drosedd i ddisgybl hŷn)
- o achosi anaf personol i unrhyw berson neu niwed i'w eiddo (gan gynnwys y disgybl ei hun)
- o peryglu cynnal trefn a disgyblu da yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, boed yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall.

Nid oes diffiniad cyfreithiol ynghylch pryd mae'n rhesymol i ddefnyddio grym. Bydd hynny bob amser yn dibynnu ar union amgylchiadau achosion unigol. Er mwyn ei ddyfarnu'n gyfreithlon, byddai angen i'r grym a ddefnyddiwyd fod yn gymesur â'r canlyniadau y bwriedir iddo'u hatal. Dylai maint y grym a

ddefnyddir fod y lleiafswm y mae ei angen i gyflawni'r canlyniad a ddymunir. Ni ellid cyfiawnhau defnyddio grym i atal camymddygiad dibwys.

Mae bob amser yn anghyfreithlon defnyddio grym fel cosb. Mae hyn oherwydd y byddai'n cael ei gynnwys yn y diffiniad o gosb gorfforol a gafodd ei ddileu gan Adran 548 Deddf Addysg 1996.

Yn 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol](#) i ddarparu cyngor i'r holl asiantaethau statudol i alluogi fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau. Yn 2014, cyhoeddwyd canllawiau penodol ar gyfer y gwasanaethau addysg ar [Ymyriad Diogel ac Effeithiol: Defnyddio Grym Rhesymol a Chwilio am Arfau](#)

Mae polisi Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur ar ddefnyddio grym yn gyson â'n bolisi ymddygiad. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a pholisïau ymddygiad ysgol ar gael yng [nghylchlythyr 47/2006, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion](#). Dylai hefyd fod yn gyson â pholisïau'r ysgol ar amddiffyn plant ac iechyd a diogelwch.

Gweler [Polisi Ataliaeth Corfforol Ysgol Gymraeg Ystalyfera –Bro Dur](#); [Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur](#).

24 Radicaleiddio

Dyletswyddau ac arweiniad

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau [Gwrthsafiad a Pharch - Datblygu Cydlyniant Cymunedol - Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer Ysgolion a'u Cymunedau](#) sy'n disgrifio'r rôl sydd gan ysgolion wrth ddatblygu a chefnogi ymagweddau strategol at hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol a chael gwared ar eithafiaeth dreisgar.

Yn 2012, lansiodd Llywodraeth y DU strategaeth [Prevent](#) wedi'i hailffocysu. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys amcanion i:

- ymateb i her ideolegol terfysgaeth a'r bygythiad a wynebwn gan y rhai sy'n ei hyrwyddo
- atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn derbyn cyngor a chefnogaeth briodol
- gweithio gyda sectorau a sefydliadau lle mae perygl o radicaleiddio y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef.

Mae [Channel](#), elfen allweddol o'r strategaeth [Prevent](#), yn ymagwedd amlasiantaeth at amddiffyn pobl sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Mae Channel yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion rhag cael eu denu i gyflawni gweithgaredd sy'n ymwneud â therfysgaeth. Mae Channel yn defnyddio'r cydweithredu sydd eisoes yn bod rhwng partneriaid diogelu statudol (megis awdurdodau lleol, yr heddlu, y GIG a'r gwasanaethau rheoli ieuencid a throseddwyr) i:

- nodi unigolion sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth;
- asesu natur a maint y risg honno
- datblygu'r cynllun cefnogaeth mwyaf priodol i'r unigolion dan sylw.

I gael mwy o wybodaeth am gynnyrch hyfforddiant ymwybyddiaeth o radicaleiddio'r Swyddfa Gartref sef Workshop to Raise Awareness of Prevent (WRAP), e-bostiwch WRAP@homeoffice.x.gsi.gov.uk.

Os oes gennych bryder am blentyn o ran eithafiaeth ac nid yw'r opsiynau cefnogaeth ar gael yn lleol, siaradwch â'ch cynrychiolydd heddlu BDPLI a fydd yn gallu trafod opsiynau cefnogaeth.

I roi gwybod am gynnwys terfysgaeth ar-lein a amheuir, dilynwch y [ddolen](#) hon. Gallwch hefyd gyfeirio'r cynnwys sy'n peri pryder yn uniongyrchol i lwyfan cyfryngau cymdeithasol - gallwch ddysgu sut i wneud hynny yn <http://www.saferinternet.org.uk/advice-and-resources/teachers-and-professionals/safety-features>

25 Pobl ifanc sy'n weithredol yn rhywiol

Mae [Deddf Troseddau Rhywiol 2003](#) yn nodi mai'r oed cyfreithiol ar gyfer gweithgaredd rhywiol yw 16 oed. Mae hefyd yn dweud nad yw plant dan 13 oed yn ddigon hen i gydsynio i weithgarwch rhywiol. Yn ôl y gyfraith, mae gweithgaredd rhywiol â phlentyn dan 13 oed yn drosedd ddifrifol ac mae'n adlewyrchu barn cymdeithas na ddylai plant dan 13 oed fod yn weithredol yn rhywiol, ac mae pa mor agored ydynt i gamfanteisio a meithrin perthynas rhywiol amhriodol o bosib yn sylweddol.

Mae'n rhaid i'r asiantaeth dan sylw asesu anghenion iechyd, addysg, cefnogaeth a/neu ddiogelu'r holl bobl ifanc, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu tueddfryd rhywiol, y credir eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, neu'n bwriadu gwneud hynny. Mae'n cynnal yr asesiad hwn yn unol â [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#). Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc fod yn llwyr ymwybodol o'r 5 pwynt yn arweiniad Fraser o ran gallu'r person ifanc:

- bydd y person ifanc yn deall cyngor y gweithiwr proffesiynol
- ni ellir dwyn perswâd ar y person ifanc i ddweud wrth ei rieni
- mae'r person ifanc yn debygol o ddechrau, neb barhau i gael cyfathrach rywiol heb ddulliau atal cenhedlu
- oni bai fod y person yn derbyn triniaeth atal cenhedlu, bydd ei iechyd corfforol neu feddyliol, neu'r ddau, yn debygol o ddiodef
- mae'n ofynnol, er lles pennaf y person ifanc, iddo dderbyn cyngor neu driniaeth atal cenhedlu gyda chaniatâd ei rieni neu hebdo.

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan](#) yn cynnwys protocol ar ddiogelu a hyrwyddo lles pobl ifanc sy'n weithredol yn rhywiol (pennod 5.4), ac fe'i lluniwyd i adnabod lle gall y perthnasoedd hyn fod yn gamdriniol a lle bydd angen diogelu plant a phobl ifanc.

Plant dan 13 oed

O dan [Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003](#) nid yw plant dan 13 oed yn ddigon hen i gydsynio i weithgarwch rhywiol. Ym mhob achos lle mae'r person ifanc sy'n weithredol yn rhywiol dan 13 oed, rhaid i'r asiantaeth sy'n ymwneud â'r mater gynnal asesiad llawn. Mae'n rhaid asesu pob achos yn unigol ac ystyried gwneud cyfeiriad amddiffyn plant i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Gellir gwneud penderfyniad i beidio â chyfeirio achos i'r gwasanaethau cymdeithasol dim ond ar ôl trafod yr achos â'r person arweiniol amddiffyn plant yn asiantaeth gyflogi'r gweithiwr proffesiynol. Os na

wneir cyfeiriad, mae'r gweithiwr proffesiynol a'r asiantaeth dan sylw'n gwbl atebol am y penderfyniad, a rhaid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir.

Pan ganfyddir bod merch dan 13 oed yn feichiog, rhaid gwneud cyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol lle caiff asesiad cychwynol ei gwblhau a chynhelir cyfarfod strategaeth neu drafodaeth a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r adrannau iechyd ac addysg.

[Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#) (pennod 8, paragraff 8.29) yn nodi lle gallai trosedd fod wedi digwydd, yna dylid cyfeirio'r achos i'r heddlu yn ddi-oed.

Pobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed

Mae [Deddf Troseddau Rhywiol 2003](#) yn atgyfnerthu, er bod gweithgaredd rhywiol y cytunwyd ar y cyd arno, heb unrhyw gamfanteisio, yn digwydd rhwng ardegwyr, ac yn aml ni ddaw unrhyw niwed ohono, dylai'r oedran cydsynio aros yn 16 oed. Mae hyn yn cydnabod bod y grŵp hwn o bobl ifanc yn dal yn agored i niwed, hyd yn oed os nad ydynt yn ystyried eu hunain felly.

Mae angen asesu anghenion pobl ifanc yn y grŵp oed hwn sy'n weithredol yn rhywiol o hyd gan ddefnyddio'r protocol Cymru Gyfan. Bydd trafodaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol yn dibynnu ar lefel y risg neu'r angen a asesir gan y rhai sy'n gweithio gyda'r person ifanc. Dylid ystyried gwneud cyfeiriad os bydd person ifanc yn beichiogi neu'n colli plentyn neu'n terfynu beichiogrwydd.

Mae'r gwahaniaeth hwn mewn gweithdrefn yn adlewyrchu'r ffaith, er bod gweithgaredd rhywiol dan 16 oed yn dal yn anghyfreithlon, nid yw'r gallu gan bobl ifanc dan 13 oed i gydsynio i weithgaredd rhywiol.

Pobl ifanc rhwng 17 ac 18 oed

Er nad yw gweithgaredd rhywiol yn drosedd mwyach dros 16 oed, cynigir amddiffyniad gweithdrefnau amddiffyn plant o hyd i bobl ifanc dan 18 oed o dan [Ddeddf Plant 1989](#). Mae angen ystyried materion camfanteisio rhywiol drwy buteindra a cham-drin pŵer mewn amgylchiadau. Gall pobl ifanc fod yn destun troseddau treisio ac ymosodiad o hyd, ac efallai bydd angen trafod amgylchiadau digwyddiad â pherson ifanc.

I bobl ifanc dros 16 oed a dan 18 oed, bydd anghydbwysedd pŵer, ac ni fernir bod y plentyn neu'r person ifanc yn gallu cydsynio os yw'r partner rhywiol mewn swydd o ymddiriedaeth broffesiynol neu'n aelod o'r teulu fel a ddiffinnir gan [Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003](#).

26 Camddefnyddio sylweddau

Amcangyfrifodd adroddiad y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD) [Hidden Harm – Responding to the needs of children of problem drug users](#) y gallai fod cynifer ag 17,500 o blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n bwy mewn teuluoedd lle mae rhieni'n camddefnyddio cyffuriau, ac y gallai problemau alcohol rhieni effeithio'n andwyol ar 64,000 o blant yng Nghymru.

Dyletswyddau ac arweiniad

Mae Pennod 9 [Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#) yn cynnwys adran ar ddiogelu plant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae [Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013 - 2014](#) Llywodraeth Cymru'n cefnogi ei strategaeth 10 mlynedd [Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018](#) ac mae'n nodi'r camau i'w cymryd i leihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau.

[Cyhoeddwyd Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau](#) ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r [canllawiau'n](#) darparu gwybodaeth fanwl am gyflwyno addysg camddefnyddio sylweddau briodol yn ôl gofynion y cwricwlwm ac angen penodol, a rheoli digwyddiadau camddefnyddio sylweddau gan gynnwys cefnogaeth, deddfwriaeth ac arfer da.

[Mae Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018](#) yn gosod pwyslais penodol ar waith atal gyda phlant a phobl ifanc o ran alcohol a sylweddau eraill. Nod Llywodraeth Cymru yw cyrraedd sefyllfa lle nad oes neb yng Nghymru'n anwybodus naill ai o ganlyniadau camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, neu ble y gallant geisio cymorth a chefnogaeth.

Mae gwasanaeth cwnsela YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR (Jigsaw) hefyd yn darparu cefnogaeth bersonol i blant a phobl ifanc sydd am drafod eu problemau, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, ag ymgynghorydd annibynnol. Mae [Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru - Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru'n](#) amlygu'r angen i wasanaethau cwnsela ddatblygu protocolau ar gyfer gweithio gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys cyfeiriadau i asiantaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae Llinell Gymorth Camddefnyddio Sylweddau Cymru [DAN 24/7](#), yn darparu mynediad hawdd 24 awr y dydd i wybodaeth a chynghor, gan gynnwys ble i gael mwy o gefnogaeth neu driniaeth.

Gweler [Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur](#)

27 Hunanladdiad

Dyletswyddau ac arweiniad

[Cyhoeddwyd 'Siarad â Fi', y cynllun gweithredu cenedlaethol i leihau hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru](#) yn 2009. Mae'r cynllun gweithredu'n bennaf ar gyfer pobl sydd yn y perygl mwyaf. Mae gan y cynllun saith ymrwymiad allweddol sef:

- hybu iechyd a lles meddwl
- ymyrryd yn gynnar
- ymateb i argyfwng personol
- rheoli canlyniadau hunanladdiad a hunan-niweidio
- hybu dysgu ac ymchwil a gwella gwybodaeth am hunanladdiad ac atal hunanladdiad
- gweithio gyda'r cyfryngau i sicrhau yr adroddir yn briodol am iechyd meddwl a hunanladdiad
- cyfyngu mynediad i ddulliau hunanladdiad

Mae'r arweiniad hunan-gymorth [Help is at Hand](#) er lles y rhai sydd wedi profi profedigaeth oherwydd hunanladdiad ac fe'i cyhoeddwyd yn 2013. Mae ar gyfer amrywiaeth eang o bobl y mae hunanladdiad neu farwolaeth anesboniadwy'n effeithio arnynt, nid perthnasau neu ffrindiau'n unig, ond hefyd gweithwyr gofal iechyd ac eraill sy'n dod i gysylltiad â'r rhai sy'n galaru, i'w cynorthwyo wrth roi cymorth a hefyd, awgrymu sut gallant hwy eu hunain ddod o hyd i gefnogaeth os oes ei hangen arnynt.

Mae gwasanaeth cwnsela YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR (Jigsaw) hefynd yn darparu cefnogaeth bersonol ar gyfer disgyblion a phobl ifanc sydd eisiau trafod eu problemau, gan gynnwys hunan-anafu, hunan-laddiad neu brofedigaeth gyda chynghorydd annibynnol.

Gweler [Polisi Diogleu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

28 Cam-drin partner agos ymhlith ardegwyr

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod cam-drin ymhlith perthnasoedd pobl ifanc o leiaf yn adlewyrchu'r lefelau cyffredinrwydd a welir mewn perthnasoedd oedolion a'r data sy'n amlinellu lefelau sylweddol o gam-drin risg uchel.

Canfu gwaith diweddar gan 'Gweithredu Cyd-drefnus yn Erbyn Cam-drin yn y Cartref (CAADA)' fod y rhan fwyaf o ddiodefwyr sy'n ardegwyr yn yr astudiaeth yn profi cam-drin a gyflawnwyd gan bartner presennol neu gyn-bartner ac nid oeddent yn byw gyda'r troseddwr. Roedd diodefwyr a oedd yn ardegwyr yn fwy tebygol na diodefwyr a oedd yn oedolion i gael eu cam-drin gan fwy nag un camdriniwr.

Mae cam-drin mewn perthynas rhwng pobl ifanc yn effeithio ar y ddau ryw, er bod mwy o ferched yn adrodd bod y cam-drin wedi'i ailadrodd a bod difrifoldeb y cam-drin wedi gwaethygu ar ôl i'r berthynas ddod i ben. Adroddodd merched fwy o effaith negyddol ar eu lles na bechgyn. Er bod canfyddiadau ymchwil yn dangos bod merched yn profi'r math hwn o gam-drin yn amlach na bechgyn, maent yn profi'r effaith mewn ffordd wahanol. Mae merched yn adrodd am effaith negyddol fwy arwyddocaol ond mae bechgyn yn tueddu i leihau effaith y trais. Mae bechgyn hefyd yn tueddu i leihau eu defnydd eu hunain o drais a gallant gyfeirio ato fel 'chwarae o gwmpas' (NSPCC 2009).

Mae ystrydebau rhywedd yn effeithio ar fechgyn hefyd, a gallant deimlo dan bwysau i ymddwyn mewn ffordd wrywaidd neu 'wrol' amlwg tuag at ferched a menywod. Gall addysg cydraddoldeb rhyw helpu i fynd i'r afael â'r ffordd y mae'r cyfryngau'n portreadu'r ddau ryw a helpu i addysgu bechgyn a merched i adnabod perthnasoedd iach ac afiach.

Gall cam-drin fod ar ffurf ymddygiad corfforol, emosiynol a rhywiol a rheoli ymddygiad amlwg, a allai gynnwys atal y person ifanc rhag gweld ei ffrindiau neu fynd allan, dweud wrtho beth y mae'n gallu'i ddweud neu beidio, ei fygwth neu ei ynysu o'i ffrindiau a'i deulu.

Dangosyddion risg

Efallai na fydd unrhyw weithwyr addysg proffesiynol yn dyst i unrhyw un o'r ymddygiadau hyn, ond mae'n bosib y bydd yn gweld arwyddion bod person ifanc mewn perthynas gamdriniol.

Gall profi cam-drin mewn perthynas gael effaith andwyol ar gyfranogiad a chyflawniad addysgol person ifanc. Efallai bydd yn dechrau colli gwersi neu beidio â chwblhau gwaith cartref, a gall ansawdd ei waith ddiodef. Os nad yw person ifanc yn teimlo'n ddiogel, gall osgoi dod i'r ysgol yn gyfan gwbl neu aros yn hwyr yn hytrach na gorfod cwrdd â'i gariad y tu allan i'r ysgol.

Ymateb i bryderon

Dylid rhoi gwybod am bryderon yn yr un ffordd â phob mater diogelu arall. Mae'r NSPCC a'r Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr wedi ysgrifennu rhestr wirio ar gyfer datblygu polisïau cam-drin mewn perthnasoedd mewn ysgolion. Mae ar gael yn: www.nspcc.org.uk/relationshipabuse.

Mae cam-drin mewn perthnasoedd pobl ifanc yn tueddu i ddwysáu'n gyflymach nag mewn perthnasoedd oedolion ac mae'n fwy tebygol o fod yr un mor ddifrifol neu'n fwy difrifol ei natur. Er y gall ysgolion a cholegau ddarparu lloches ddiogel i bobl ifanc mewn perygl, mae hefyd yn bosib y bydd dioddefwr a'r person sy'n ei gam-drin yn mynd i'r un ysgol neu goleg a/neu'n rhan o'r un cylch cymdeithasol.

Ymagweddau rhagweithiol

Mae addysgu'r hyn sy'n creu perthynas iach, drwy addysg rhyw a pherthnasoedd, yn ganolog i ddiogelu. Ymhlyg â hyn y mae herio ystrydebau, megis goddefolrwydd benywaidd ac ymosodedd gwrywaidd, a chydabod y gall cam-drin mewn perthynas ddigwydd i unrhyw un, ni waeth beth yw ei ryw, ei gefndir cymdeithasol neu ei dueddfryd rhywiol.

Fel rhan o'r ymateb diogelu i gam-drin mewn perthynas, dylai ysgolion nodi strategaethau i gefnogi disgyblion sy'n arddangos ymddygiad camdriniol i newid eu hymddygiad. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys cyfranogaeth rhieni, os yw'n briodol, cyfeirio i gwnsela a mathau eraill o gefnogaeth neu ddod o hyd i raglen benodol i bobl ifanc sy'n gamdriniol yn eu perthynas.

Gweler [Polisi Diogleu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Cwricwlwm ABCh Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur](#)

29 Iechyd a Diogelwch

Mae gan YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan gorff llywodraethu'r ysgol. Mae'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr yn monitro'r polisi a gofynnir i staff roi gwybod i'r Pennaeth am unrhyw bryderon. Bydd yntau naill ai'n cynnal archwiliad cychwynnol neu'n ei drefnu, ac yn asesu pa gamau gweithredu unioni sydd eu hangen. Mae'r polisi'n ymdrin â driliau tân a gadael adeilad ar frys mewn ffordd effeithlon, asesiadau risg iechyd a diogelwch, asesiadau risg tân a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â digwyddiadau difrifol.

Gweler [Polisi Iechyd a Diogelwch Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

30 Cyfle Cyfartal

Mae datganiad Cyfle Cyfartal YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA –BRO DUR yn nodi:

Mae'r YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR yn gwerthfawrogi pob disgybl, gan ddathlu unigolrwydd pobl a hefyd amrywiaeth diwylliannol y gymuned sydd wedi'i chanoli yn yr ysgol ac yn dangos parch at bawb. Rydym yn hybu egwyddorion tegwch a chyfiawnder i bawb trwy'r addysg y mae'n ei darparu yn yr ysgol.

Nid yw'r ysgol yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un yn anghyfreithlon, p'un ai'n ddisgybl, rhiant, staff neu'n ymwelydd, ar sail rhyw, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabled, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred neu oedran. Rydym yn ceisio sicrhau, pryd bynnag fo hynny'n bosibl, bod gan bob disgybl fynediad hafal i'r amrediad llawn o gyfleoedd addysgol a ddarperir gan yr ysgol. Ymdrechwn i adnabod yn gyson a chael gwared ag unrhyw ffurfiau ar wahaniaethu anuniongyrchol a all ffurfio rhwystrau rhag dysgu i rai grwpiau trwy asesu'n rheolaidd effaith ei pholisïau, ei harferion a'i chanllawiau. Rydym yn

herio rhagfarn bersonol a safbwyntiau stereoteip pryd bynnag y byddant yn digwydd. Rydym yn ymwybodol bod rhagfarn a stereoteipio yn medru cael eu hachosi gan gamsyniad a chan anwybodaeth. Trwy brofiadau addysgol positif, a chefnogaeth i safbwynt pob unigolyn, mae'r ysgol yn ceisio hybu agweddau cymdeithasol positif a pharch i bawb. Rydym yn sicrhau bod cyfleoedd recriwtio, cyflogi, hybu a datblygu yn hygyrch i bawb. Mae'r ysgol a'i staff yn ymdrechu i fod yn rhagweithiol wrth daclo rhagfarn a gwahaniaethau anghyfreithiol.

Cyhoeddir datganiad Cyfle Cyfartal ar wefan ac ym mholisi Cyfle Cyfartal yr ysgol.

Mae'n rhaid i blant ag anableddau allu cymryd rhan lawn a gweithredol ym mhob gwrs a rhaid cymryd pob cam i sicrhau hyn. Darperir mwy o fanylion ym mholisi Cyfle Cyfartal yr ysgol, a gaiff ei gyhoeddi fel dogfen ar wahân.

Gweler [Polisi Cyfle Cyfartal Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Cydraddoldeb Hiliol Ysgol Gymraeg Ystalyfera–Bro Dur](#).

31 Aflonyddu a Gwahaniaethu

Mae dulliau ymateb YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA – BRO DUR i faterion aflonyddu a gwahaniaethu yn y Polisi Cyfle Cyfartal, ac ymdrinnir â hwy mewn dogfen ar wahân.

Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw faterion aflonyddu a gwahaniaethu, boed y rheiny'n cael eu cyflawni gan oedolion neu blant, ac mae ei hymateb i'r fath faterion yn cael ei gynnwys yn y polisi uchod.

Gweler [Polisi Cyfle Cyfartal Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Cydraddoldeb Hiliol Ysgol Gymraeg Ystalyfera–Bro Dur](#).

32 Cam-drin hiliol

Ynghyd â'i pholisi Cyfle Cyfartal, mae gan yr ysgol hefyd Bolisi Cydraddoldeb Hiliol. Mae'n bwysig i'r Corff Llywodraethu fod disgyblion yn yr ysgol yn cael eu paratoi ar gyfer byw mewn cymdeithas sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo cydraddoldeb a chytgord hiliol drwy atal a herio hiliaeth. Eir i'r afael â hiliaeth yn y cwricwlwm Addysg Grefyddol ac ABCCh a nodir mwy o wybodaeth am y strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol i fynd i'r afael â honiadau o hiliaeth yn ei Bolisi Cydraddoldeb Hil ar wahân. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn trafodaethau â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â rhagfarn. O bryd i'w gilydd, bydd ymwelwyr yn gweithio gyda'r plant, ac adroddir am yr holl ddigwyddiadau hiliol i'r Awdurdod Lleol a'r Corff Llywodraethu pan fyddant yn digwydd.

Gweler [Polisi Cyfle Cyfartal Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Cydraddoldeb Hiliol Ysgol Gymraeg Ystalyfera–Bro Dur](#).

33. Camddefnyddio cyffuriau a sylweddau

Mae gan yr ysgol Bolisi Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau ar wahân, sy'n gysylltiedig â Pholisi Ymddygiad yr ysgol, ac mae'n darparu cefnogaeth briodol i unrhyw blant a allai fod yn camddefnyddio

cyffuriau a sylweddau. Yn ogystal, eir i'r afael â'r materion hyn yn rheolaidd, fel rhan o'r cwricwlwm, a darparir mwy o fanylion ym mholisi'r ysgol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau.

Gweler [Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur \(gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau a sylweddau\)](#)

34 Cymorth Cyntaf

Mae gan yr ysgol aelodau hyfforddedig o staff sy'n gyfrifol am gymorth cyntaf. Dyma'r staff sy'n gyfrifol am gymorth cyntaf:-

Campws Ystalyfera

Mrs Helen Ullah
Mrs Rhian Lougher
Mr Huw Rumble
Mr Dafydd Howells
Mrs Cathy Chinchin
Mrs Ceryn Fisk-Jones
Mrs Sian Abraham
Mr Paul Gowland
Ms Rebecca Scott

Campws Bro Dur

Mrs Tracy Parry
Mrs Tracy Fowler
Mr Robin Jones
Mr Christian Lee
Mr Glen Morgan

Caiff offer cymorth cyntaf ei storio yn y Brif Sywddfa ac mae cit cymorth cyntaf cludadwy ar gael ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle. Caiff gweithdrefnau manwl ynghylch pa gamau i'w cymryd os bydd damwain neu os bydd plentyn yn mynd yn sâl eu cynnwys yn y Polisi Cymorth Cyntaf sy'n ddogfen ar wahân.

Gweler [Protocol Cymorth Cyntaf Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur](#); [Polisi Ymweliadau Addysgol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#).

35 Disgyblion â chyflyrau meddygol

Safbwynt YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR o ran rhoi meddyginiaeth yw y bydd aelodau o staff yn rhoi moddion dim ond os yw rhiant wedi cwblhau a llofnodi'r ffurflen briodol sy'n gofyn i staff roi meddyginiaeth; mae'r penderfyniad i gyflawni'r cais yn ôl disgrisiwn y Pennaeth/neu bydd aelodau o staff ond yn rhoi meddyginiaeth pan fydd y gofyniad wedi'i nodi mewn Cynllun Gofal Iechyd a ddarperir drwy'r Gwasanaeth Nyrsys Ysgol. Mae hawl gan athrawon i wrthod rhoi meddyginiaeth ac, os bydd angen meddyginiaeth ar ddisgybl sy'n mynychu'r ysgol, naill ai'n rheolaidd neu mewn argyfwng, caiff trefniadau eu gwneud i staff nad ydynt yn addysgu roi'r feddyginiaeth os nad yw athrawon yn barod i gyflawni'r dasg. Darperir hyfforddiant priodol i staff y mae angen iddynt roi meddyginiaeth megis diazepam, midazolam, epipennau etc.

Ar gyfer materion personol iawn, cytunir ar drefniadau i gefnogi disgyblion o'r fath yn yr ysgol cyn derbyn y disgyblion, a gwneir pob ymdrech i gynnal urddas y person ifanc hwnnw.

Ceir mwy o fanylion o ran rhoi meddyginiaeth ym Mholisi Rhoi Meddyginiaeth yr ysgol sy'n ddogfen ar wahân ac yn seiliedig ar gylchlythyr Llywodraeth Cymru, Rhif: 003/2010 Mynediad i Addysg a Chefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol.

Gweler [Polisi Disgyblion â Cyflwr Meddygol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Gweler Polisi Gofal Dwys Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

36 Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Eir i'r afael â darpariaeth addysg rhyw a pherthnasoedd drwy bolisi ar wahân sy'n cynnwys yr agwedd hon **neu** Bolisi ABCh yr ysgol **neu** Bolisi Cwricwlwm yr ysgol.

[Gweler Polisi LAC Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur](#); [Cwricwlwm ABCh Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur](#)

37 Diogelu yn y Cwricwlwm

Mae cwricwlwm YSGOL GYMRAEG YSTALYFEAR BRO DUR yn mynd i'r afael â materion diogelu mewn dwy ffordd. Yn y lle cyntaf, mae'r cwricwlwm mewn testunau fel addysg bersonol a chymdeithasol, yn trafod materion perthnasol â phlant a chynhwysir testunau fel cyffuriau, rhyw a pherthnasoedd yn y pwnc. Anogir plant i archwilio a thrafod y materion hyn. Yn ail, mae'r cwricwlwm wedi'i lunio fel y caiff materion diogelwch ym mhob pwnc eu trafod, ac yr addysgir arferion diogel er enghraifft defnyddio offer yn gywir yn Addysg Gorfforol a Dylunio a Thechnoleg. Mae'r ysgol yn archwilio ei holl gynlluniau gwaith i sicrhau yr eir i'r afael â diogelu. Darperir lefelau staffio priodol yn yr amgylchedd dysgu ar bob adeg, a phan addysgir plant oddi ar y safle, mae'r oedolyn priodol yn sicrhau y cynhelir y gymhareb athro: disgybl gywir. Bydd yr ysgol yn defnyddio siaradwyr gwadd, lle y bo'n briodol, er mwyn gwella profiad dysgu'r plant a'r bobl ifanc.

38 Diogelwch ar ymweliadau addysgol

Yr aelod o staff sy'n gyfrifol am ymweliadau addysgol yw Mr Emyr Evans (Pennaeth Cynorthwyol).

Cynhelir pob ymweliad addysgol yn unol ag arweiniad yr awdurdod ar gynnal ymweliadau addysgol ac mae'r arweiniad hwn yn cynnwys cymarebau athro: disgybl, trefnu cludiant, sicrhau gwiriad GDG gyrrwr y dull cludiant, egwyliau priodol, cyfleoedd cwricwlaidd priodol a dull o gyfathrebu mewn argyfwng. Darperir mwy o fanylion ym Mholisi Ymweliadau Addysgol YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR, sy'n ddogfen ar wahân.

Gweler [Polisi Ymweliadau Addysgol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

39 Lles disgyblion ar leoliadau galwedigaethol estynedig

Lle bydd disgybl yn cymryd rhan mewn lleoliad gwaith parhaus neu leoliadau galwedigaethol eraill, bydd YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR yn ymweld â'r person ifanc yn rheolaidd i sicrhau y cynhelir ei les. Anogir y person ifanc i adrodd am unrhyw bryderon ac eir i'r afael â phroblemau profiad gwaith mewn polisi ar wahân.

Cyswllt yr ysgol ar gyfer profiad gwaith a lleoliadau galwedigaethol eraill yw: Mr Emyr Evans

40 Diogeledd y safle

Mae YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR yn gwneud pob ymdrech i ddarparu safle diogel ac felly, mae'n rhaid i'r holl bobl ar y safle lynu wrth y rheolau sy'n ei lywodraethu. Mae trefniadau diogelwch y safle wedi'i nodi yn ein Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch, Asesiadau Risg, Polisi Rheolaeth Traffig a'r Llawlyfr Staff.

1) Derbyn ymwelwyr a rhoi caniatad ar gyfer ymweld â'r safle:

Rhaid i bob ymwelydd gofrestru wrth y prif fynedfa. Mae arwyddion o amgylch yr ysgol yn hysbysu ymwelwyr o'r trefniant hwn. Unwaith y bydd y swyddfa yn deal bwriad yr ymweliad byddant yn cysylltu â'r aelod o staff priodol. Os na fydd trefniant ymlaen llaw wedi ei wneud yna bydd y swyddfa yn cysylltu ag aelod o'r UDRh sydd ar ddyletswydd. Bydd yr ymwelydd yn cofrestru ac yn derbyn bathodyn ymwelydd a fydd yn cael ei wisgo trwy gydol yr ymweliad. Gofynnwn i holl ymwelwyr i gofrestru allan ar ddiwedd yr ymweliad.

2) Trefniadau ar gyfer disgyblion yn gadael y safle yn ystod y dydd:

Rhaid i unrhyw drefniadau ar gyfer disgybl sydd angen gadael safle'r ysgol yn ystod y dydd gael ei wneud naill ai trwy alwad ffôn (Prif Swyddfa) neu lythyr (Tiwtor Dosbarth / PB – gan y riant neu warcheidwad) cyn dyddiad yr absenoldeb gan ddangos unrhyw garden apwyntiad/llythyr. Cyn gadael rhaid i bob disgybl fynd i'r Brif Swyddfa a chofrestru allan cyn cwrdd â rhiant/warcheidwad wrth y Brif Fynedfa.

3) Trefniadau pan mae disgybl yn gadael y safle heb ganiatad:

Os yw unrhyw aelod o staff yn credu bod disgybl wedi gadael y safle heb ganiatad rhaid ffonio rhif argyfwng yr ysgol (1100) gan hysbysu'r swyddfa ar unwaith. Wrth gwblhau'r gofrestr ar ddechrau gwrs rhaid i athro gysylltu â'r brif swyddfa os yw disgybl sydd wedi bod yn bresenol trwy'r dydd yn absennol o'r wers. Rhaid i bob athro sydd yn trefnu gweithgareddau gyda disgyblion yn ystod y dydd darparu rhestr i'r brif swyddfa er mwyn bod y gofrestr yn dangos y côd swyddogol.

Bydd unrhyw absenoldeb o'r math hwn yn cael ei drosglwyddo i aelod y UDRh sydd ar ddyletswydd a fydd yn cynnal archwiliad llawn o'r ysgol er mwyn sicrhau nad yw'r disgybl ar y safle. Os fydd yr absenoldeb anawdurdodedig yn cael ei gadarnhau byd yr aelod o'r UDRh yn hysybu'r teulu a'r heddlu.

4) Trefniadau ar gyfer delio â materion sydd yn codi pan mae ymddygiad ymwelydd yn anaddas:

Os yw ymddygiad unrhyw ymwelydd yn ymddangos yn fygythiol neu yn anaddas bydd aelod o'r UDRh yn gofyn iddynt adael y safle ar unwaith. Os fydd yr ymwelydd yn gwrthod, bydd yr ysgol yn galw'r heddlu.

41 Presenoldeb

Cydnabyddir bod plant sy'n chwarae triwant naill ai drwy beidio â mynychu'r ysgol pan fo'u rhieni'n credu eu bod yno neu'n dianc o'r ysgol heb ganiatâd, gan roi eu hunain mewn perygl ac felly, mae'r ysgol yn cynnal Polisi Presenoldeb ar wahân. Mae hyn yn mynd i'r afael â materion megis gweithdrefnau i rieni adrodd am salwch plentyn, cyswllt â'r cartref os bydd absenoldeb, cyfranogaeth y Swyddog Lles Addysg, cyhoeddi cyfraddau presenoldeb ac adrodd am wybodaeth ynghylch presenoldeb i'r Corff Llywodraethu a'r awdurdod lleol. Yn ogystal, mae'n cynnwys mesurau cadarnhaol i annog plant i fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae hefyd yn cyfeirio at hawl yr awdurdod i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhieni nad ydynt yn sicrhau presenoldeb a phrydlondeb da eu plant.

Gweler [Polisi Presenoldeb Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

42 Recriwtio diogel

Mae YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR yn glynu wrth arweiniad yr awdurdod o ran recriwtio diogel ac mae hyn yn cynnwys cyfranogaeth llywodraethwr neu aelod o staff sydd wedi cyflawni hyfforddiant Recriwtio Mwy Diogel a ddarperir gan Adnoddau Dynol, ar yr holl bwyllgorau penodi, cynnwys cwestiynau diogelu yn y cyfweiliad a derbyn a chadw geiradaon ysgrifenedig ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus. Mae'r Pennaeth yn sicrhau bod yr holl staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn meddu ar dystysgrif GDG ddilys. Nodir trefniadau ar gyfer recriwtio mewn polisi recriwtio ar wahân.

Gweler Polisi Recriwtio Diogel Nedd a Phort Talbot

43 Sefydlu

Rhoddir sesiwn sefydlu i'r holl aelodau staff a gwirfoddolwyr newydd o ran eu rôl, ac mae'r sesiwn sefydlu hon a gyflwynir cyn ymgymryd â'r rôl yn yr ysgol, neu'n syth ar ôl dechrau'r rôl, yn cynnwys derbyn copi o bolisi diogelu a diogelu plant yr ysgol. Disgwylir i'r aelod o staff/gwirfoddolwr ddarllen hwn, a'i lofnodi i brofi ei fod wedi darllen y ddogfen. Bydd dealltwriaeth yr aelod o staff/gwirfoddolwr o'r ddogfen yn cael ei chadarnhau drwy sgwrs rhyngddo a'r athro dynodedig ar gyfer amddiffyn plant neu ei ddirprwy.

44 Croesawu ymwelwyr

Cynhwysir trefniadau ar gyfer croesawu ymwelwyr yn y trefniadau ar gyfer diogeledd safle, y cyfeiriwyd atynt uchod.

45 Ymddygiad a disgyblaeth

Eir i'r afael â materion ymddygiad a disgyblaeth mewn polisiâu ar wahân ac mae'r rhain yn cynnwys materion megis gwobrwyo ymddygiad priodol a chosbau ar gyfer ymddygiad amhriodol.

Gweler [Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur](#); [Polisi Gwrth Fwlio Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

46 Tynnu lluniau a fideos

Eir i'r afael â mater tynnu lluniau a fideos o ddigwyddiadau ysgol mewn polisi ar wahân.

Gweler Polisi Defnydd Addas o Luniau a delweddau fideo Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur

47 Datgelu camarfer

Caiff datgelu camarfer ei gynnwys mewn polisi ar wahân. Os oes gan aelodau o staff unrhyw bryderon am ymddygiad neu fwriadau unrhyw berson yn yr adeilad, ar dir yr ysgol neu'n agos at blant, mae dyletswydd broffesiynol arnynt i hysbysu'r rheolwyr yn unol â hyn. Gellir gwneud hyn yn ysgrifenedig neu ar lafar, ond dylai staff fod yn barod i drafod materion a theimlo'n hyderus yr ymdrinnir ag unrhyw fater o'r fath mewn modd sensitif a chyda'r cyfrinachedd angenrheidiol.

Gweler [Polisi Datgelu Camarfer Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

48 Cyfathrebu â rhieni a dysgwyr

Mae YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR yn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'i pholisïau a'i gweithdrefnau diogelu, a'r angen i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill, os oes angen, wrth dderbyn disgyblion. Wrth dderbyn disgyblion, bydd yr ysgol hefyd yn ceisio eglurhad ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant o ran y disgybl, ac, o ran rhieni nad ydynt yn warchodol, bydd yn sicrhau eu bod wedi derbyn eu hawliad o ran gwybodaeth am ddigwyddiadau'r ysgol, fel a ddarperir i unrhyw riant arall, ac adroddiadau ar gynnydd y disgybl(ion) dan sylw. Sicreir bod dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud os oes ganddynt bryder drwy drafodaethau mewn gwersi ABCh a phosteri gwybodaeth sy'n cael eu harddangos o gwmpas yr ysgol.

49 Gweithgareddau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol



Mae holl weithgareddau'r ysgol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, gan gynnwys clybiau brechwast, clybiau y tu allan i'r ysgol, gweithgareddau amser cinio ac ymweliadau addysgol, yn cael eu cynnwys yn llawn ym mholisïau Diogelu ac Amddiffyn Plant yr ysgol. Ymatebir i unrhyw faterion sy'n ymwneud â phryder amddiffyn plant a materion diogelu sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol. Pan fydd cyrff allanol yn defnyddio safle'r ysgol, y tu allan i'r diwrnod ysgol, er enghraifft, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol, rhaid i drefnwyr y gweithgareddau hyn sicrhau'r Pennaeth a'r Athro Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant fod ganddynt bolisïau diogelu ac amddiffyn plant priodol ar waith sy'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan os yw eu gweithgareddau'n ymwneud â phlant. Mae'r corff llywodraethu'n cadw'r hawl i derfynu cytundebau ar gyfer defnyddio safle'r ysgol, y tu allan i'r diwrnod ysgol, lle mae'n gyfrifol am hyn, os yw'n dod yn ymwybodol o fethiannau o ran diogelu neu amddiffyn plant. Mewn amgylchiadau lle nad oes gan y corff llywodraethu'r awdurdod i derfynu'r trefniad, bydd yn sicrhau bod y fath faterion yn cael eu cyfeirio, fel mater o frys, i'r corff rheoli.

Gweler [Polisi Ymweliadau Addysgol Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#); [Polisi Diogleu Plant Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

50 Cwynion

Mae gan yr ysgol Weithdrefn Gwynion ar waith sy'n seiliedig ar y model a gynhwysir yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru: 011/2012, *Gweithdrefnau Cwynion ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru*, ac, yn ogystal, mae ganddo wybodaeth gwynion i blant fel y gall plant, staff a'r cyhoedd gyflwyno'u cwynion mewn perthynas â'r ysgol, gan gynnwys cwynion diogelu a phryderon ynghylch y faith na chymerwyd camau gweithredu diogelu.

Gweler [Polisi Cwynion Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur](#)

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Alun Llewelyn		Ionawr 2021
Pennaeth	Mrs Laurel Davies		Ionawr 2021

Dyddiad Adolygu

Ionawr 2022